GAMBLING COMMISSION

Cod Ymarfer Caniatadau Peiriannau Chwarae Gemau

- Caniatadau Chwarae Gemau Clybiau a Chaniatadau Peiriannau Clybiau

- Caniatadau ar gyfer Safleoedd Trwyddedig ar gyfer Alcohol

Mehefin 2007

Rhagarweiniad

i. Dyma God Ymarfer y Comisiwn Hapchwarae a gyhoeddwyd o dan adran 24 Deddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf) yn ymwneud â darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae yn unol â chaniatadau peiriannau chwarae gemau clybiau, peiriannau clybiau a safleoedd trwyddedig. Mae hyn yn cynnwys:

- cofrestriadau o dan Rannau II a III Deddf Hapchwarae 1968, sy'n cael eu trin, o dan ddarpariaethau trawsnewidiol, fel caniatadau chwarae gemau clybiau a pheiriannau clybiau yn y drefn honno; a
- chaniatadau peiriannau hapchwarae safleoedd trwyddedig ar gyfer alcohol (a34 caniatadau Deddf 1968 yn flaenorol).

ii. Daw'r Cod i rym ar 1 Medi 2007.

iii. Yr eitemau hynny sydd wedi eu nodi mewn teip tywyll yw'r darpariaethau sy'n amod y caniatâd a rhaid cydymffurfio gyda nhw.

Atodiad A: Lleoliad a gweithrediad peiriannau

Pob deiliad caniatâd

Mae cydymffurfiad gyda'r darpariaethau hyn yn un o amodau eich caniatâd, a gall methu â gwneud hynny arwain at ddiddymu'r caniatâd .[1]

1 **Rhaid i'r holl beiriannau chwarae gemau a leolir ar y safle gael eu lleoli mewn lle o fewn y safle fel y gellir arolygu eu defnydd, naill ai gan staff y mae eu dyletswyddau yn cynnwys arolygaeth o'r fath (gan gynnwys staff bar neu lawr) neu drwy ddulliau eraill.**

Rhaid i ddeiliaid caniatadau fod â threfniadau yn eu lle ar gyfer arolygaeth o'r fath.

[1] Mae cydymffurfiad gyda'r darpariaethau hyn yn un o amodau'r caniatâd perthnasol o ganlyniad i Ddeddf Hapchwarae 2005: adran 271 ar gyfer Caniatadau Hapchwarae Clybiau, adran 273 ar gyfer Caniatadau Peiriannau Clybiau, adran 282 ar gyfer safleoedd trwyddedig ar gyfer alcohol gan ddefnyddio eu caniatadau peiriannau awtomatig ac adran 283 ar gyfer caniatadau Peiriannau Chwarae gemau safleoedd trwyddedig a Chaniatadau Peiriannau Chwarae Gemau safleoedd trwyddedig ar gyfer alcohol.

2 **Dylid lleoli'r holl beiriannau chwarae gemau ar y safle mewn lle sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwsmer sy'n dymuno defnyddio unrhyw ATM y sicrheir ei fod ar gael ar y safle beidio â hapchwarae wrth y peiriant chwarae gemau er mwyn gwneud hynny. Mae 'ATM' yn golygu peiriant a leolir ar y safle, sy'n galluogi i berson sy'n ei ddefnyddio gael arian drwy ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd.**

Adran B: Mynediad at hapchwarae gan blant a phobl ifanc

Pob deiliad caniatâd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r arfer gorau y mae'r Comisiwn Hapchwarae yn ystyried y dylid ei weithredu gan ddeiliaid caniatadau, nid yw cydymffurfio â'r ddarpariaeth hon yn amod o'ch caniatâd.

3 Dylai deiliaid caniatadau gyflwyno gweithdrefnau y bwriedir iddynt atal hapchwarae dan oed. Dylai hyn gynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- gwirio oed cwsmeriaid sy'n ymddangos dan oed; a
- gwrthod mynediad i unrhyw un sy'n ymddangos fel pe bai o dan oed, ac sy'n ceisio defnyddio peiriannau chwarae gemau categori B neu C ac na all gynhyrchu ffurf dderbyniol ar adnabyddiaeth.

4 Dylai deiliaid caniatadau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr holl weithwyr perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer atal hapchwarae o dan oed.

5 Dylai deiliaid caniatadau dderbyn adnabyddiaeth sydd yn unig yn:

- cynnwys ffotograff y gellir adnabod yr unigolyn ohono;
- ddilys; ac
- yn ddarllenadwy heb unrhyw arwyddion gweladwy o ymyrraeth na'i atgynhyrchu.

(Mae'r Comisiwn yn ystyried bod ffurfiau derbyniol ar adnabyddiaeth yn cynnwys unrhyw adnabyddiaeth sy'n cynnwys y logo PASS (e.e. Citizencard, Validate a cherdyn Connexions y Llywodraeth ei hun; trwydded yrru (gan gynnwys trwydded dros dro) gyda cherdyn ffotograff a phasport).

6 Dylai gweithdrefnau fod yn eu lle ar gyfer ymdrin ag achosion lle mae plentyn neu berson ifanc yn ymdrechu droeon i hapchwarae ar beiriannau categori B neu C, gan gynnwys rhybuddion llafar, adrodd am y drosedd wrth y Comisiwn Hapchwarae a'r heddlu, a sicrhau bod gwybodaeth am hapchwarae sy'n peri problemau ar gael.

Adran C: Hunan-wahardd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r arfer gorau y mae'r Comisiwn Hapchwarae yn ystyried y dylid ei weithredu gan ddeiliaid caniatadau, nid yw cydymffurfio â'r ddarpariaeth hon yn amod o'ch caniatâd.

Deiliaid caniatadau chwarae gemau clybiau a chaniatadau peiriannau clybiau yn unig

7 Dylai deiliaid caniatadau gyflwyno gweithdrefnau ar gyfer hunan-wahardd a chymryd pob cam rhesymol i wrthod gwasanaeth neu fel arall i atal unigolyn sydd wedi llunio cytundeb hunan-wahardd rhag cymryd rhan mewn hapchwarae.

8 Dylai deiliaid caniatadau weithredu gweithdrefnau y bwriadwyd iddynt sicrhau na all unigolyn sydd wedi hunan-wahardd gael mynediad at hapchwarae; mae hyn yn cynnwys:

- cofrestr o'r rhai hynny a waharddwyd gyda chofnodion priodol (enw, cyfeiriad, manylion eraill, ac unrhyw fanylion am aelodaeth neu gyfrif y gall y gweithredwr ei ddal);

- adnabyddiaeth ffotograffig (lle bo hyn ar gael ac yn arbennig lle gall gorfodi'r system ddibynnu ar ID ffotograffig), a llofnod;
- hyfforddiant staff i sicrhau bod y staff perthnasol yn gallu gorfodi'r systemau; a
- dileu'r personau hunan-waharddedig hynny a ganfyddir yn yr ardal hapchwarae neu sy'n ceisio hapchwarae o'r safle.

9 Dylai gweithdrefnau hunan-wahardd ei gwneud yn ofynnol i unigolion weithredu'n gadarnhaol er mwyn hunan-wahardd. Gall hyn fod yn llofnod ar ffurflen hunan-wahardd.

10 Cyn y gall unigolyn hunan-wahardd, dylai deiliaid caniatadau ddarparu neu sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael am beth yw canlyniadau hunan-wahardd. Dylid rhoi'r cyfle i gwsmeriaid drafod hunan-wahardd yn breifat, lle bo hynny'n bosibl.

11 Dylai deiliaid caniatadau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau:

- bod y cyfnod o hunan-wahardd yn isafswm o chwe mis a rhoi'r dewis i gwsmeriaid ymestyn hyn i gyfanswm o o leiaf bum mlynedd;
- rhoddir y cyfle i gwsmer sydd wedi penderfynu llunio cytundeb hunan-wahardd i wneud hynny ar unwaith heb unrhyw gyfnod oeri. Ond os dymuna'r cwsmer ystyried yr hunan-wahardd ymhellach (er enghraifft i drafod gyda grwpiau hapchwarae sy'n peri problemau), gall y cwsmer ddychwelyd yn ddiweddarach i hunan-wahardd;
- ar ddiwedd y cyfnod a ddewiswyd gan y cwsmer (ac o leiaf chwe mis yn ddiweddarach), cadw'r hunan-waharddiad yn ei le, oni bai bod y cwsmer yn cymryd camau positif er mwyn hapchwarae eto. Ni ellir anfon unrhyw ddeunydd marchnata at yr unigolyn oni bai ei fod wedi cymryd camau positif er mwyn hapchwarae eto, ac wedi cytuno i dderbyn deunydd o'r fath; a
- lle bo cwsmer yn dewis peidio ag adnewyddu, ac yn gwneud cais cadarnhaol i ddechrau hapchwarae eto, rhoi 1 diwrnod o oeri i'r cwsmer cyn rhoi mynediad iddo at y cyfleusterau hapchwarae.

12 Nodwch nad yw'r Comisiwn yn mynnu bod deiliaid y caniatâd yn cyflawni asesiad nac yn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylai'r unigolyn gael mynediad at hapchwarae ai peidio. Mae'r gofyniad i gymryd camau cadarnhaol yn bersonol neu dros y ffôn er mwyn:

a) gwirio bod y cwsmer wedi ystyried y penderfyniad i ddechrau hapchwarae eto a chaniatáu iddynt ystyried y goblygiadau; a
b) gweithredu'r cyfnod o 1 diwrnod o oeri ac egluro pam y cyflwynwyd hyn.

Y Comisiwn Hapchwarae Mehefin 2007

Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn rheoleiddio hapchwarae er budd y cyhoedd. Mae'n gwneud hynny drwy gadw trosedd allan o hapchwarae, drwy sicrhau bod hapchwarae yn cael ei gynnal yn deg ac yn agored, a thrwy warchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio neu rhag i eraill ymelwa arnynt gan hapchwarae. Mae'r Comisiwn hefyd yn rhoi cyngor annibynnol i'r llywodraeth am hapchwarae ym Mhrydain.

I gael mwy o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb yn y Comisiwn ewch i'n gwefan yn:
www.gamblingcommission.gov.uk

Gambling Commission
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham B2 4BP

Ffôn 0121 230 6500
Ffacs 0121 233 1096
E info@gamblingcommission.gov.uk

GUI 07/07W